Bute Energy

Rôl gwynt ar y tir ym mhroses trawsnewid ynni a dyfodol economaidd Cymru.

Mae'r tymor hwn yn y Senedd yn hanfodol i ddyfodol ynni Cymru. Mae maint yr her yn sylweddol, ond mae'r cyfleoedd yn drawsnewidiol o bosibl.

Mae'r cyfle yn glir: erbyn 2035, gallai'r diwydiant ynni adnewyddadwy helpu i feithrin economi wydn a ffyniannus. Diwydiant ffyniannus wedi'i gefnogi gan fusnesau a thalent gartref o Gymru, patrwm i arloeswyr a buddsoddwyr Cymru; diwydiant newydd yng Nghymru yn pweru Cymru a'r byd.

Gallai'r ynni sy'n pweru ein cartrefi, ein gwasanaethau cyhoeddus, ein busnesau a'n diwydiant gael ei bweru gan y gwynt, yr haul neu'r llanw. Dibynadwy, rhagweladwy, glân – system ynni ddiogel, o dan ein rheolaeth ni.

Gyda'r camau gweithredu priodol, a'r gefnogaeth briodol, gan y llywodraeth, gallai hyn fod yn realiti, a gallem gyflawni'r canlynol:


- Gwarchod aelwydydd a busnesau rhag sioc prisiau byd-eang
- Creu dyfodol ynni annibynnol, yn rhydd o danwyddau ffosil drud ac anwadal
- Sbarduno buddsoddiad cynaliadwy hirdymor yn ein heconomi, ein cymunedau a'n pobl
- Gwarchod ein hamgylchedd a diogelu ein hinsawdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae ynni – a chost ein biliau ynni – wedi bod yn fater ymgyrchu allweddol mewn sawl rhan o Gymru, a bydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y tymor hwn yn y Senedd.

Gan wynebu ail gost yr argyfwng ynni mewn 5 mlynedd, rydym yn gwybod pa mor bwysig yw gweithredu'n gyflym; gan ddod â'n dibyniaeth ar danwyddau ffosil drud i ben, a gostwng cost ynni i aelwydydd, busnesau a diwydiant.

Mae'r cyhoedd yn cefnogi mwy o weithredu ar ynni adnewyddadwy hefyd.

Mae ymchwil diweddar yn dangos bod ynni adnewyddadwy yn parhau i gael ei gefnogi'n gryf gan y cyhoedd, gyda 71% yn dweud y dylai'r datblygiadau gynyddu, o gymharu â 6% sydd eisiau iddynt leihau.[1]



Mae Bute Energy wedi paratoi'r briff sydd wedi'i atodi i roi trosolwg clir, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o'r canlynol:

- Pwysigrwydd strategol gwynt ar y tir i'n system ynni a'n heconomi
- Portffolio ynni gwynt ar y tir Bute Energy
- Y cyfleoedd i sbarduno gwerth lleol mwy
- Rôl ynni adnewyddadwy mewn gostwng cost ynni
- Y cyfyngiadau presennol a'r cyfaddawdau polisi
- Graddfa a statws buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ar y gweill ar hyn o bryd
- Sut rydym yn gweithio i gefnogi amcanion Plaid Cymru

Rydym wedi ymgysylltu'n ystyrlon â chydweithwyr yn y blaid drwy gydol datblygiad polisi'r blaid ar seilwaith ynni adnewyddadwy, ac yn gwerthfawrogi'r her adeiladol a'r cyfnewid syniadau drwy gydol y

[1] Pôl ynni RenewableUK Cymru (01.04.2026)

cyfnod hwn. Gobeithiwn barhau i ymgysylltu â chi yn y ffordd hon. Yn yr atodiad, fe welwch drosolwg o sut rydym yn credu y gallwn gefnogi cyflawni eich rhaglen lywodraethu.

Cynnwys

1. Bute Energy – cyflwyniad
2. Ein buddsoddiad yng Nghymru
3. Cyd-destun strategol a deddfwriaethol
4. Galw cynyddol am ynni yng Nghymru
5. Rôl gwynt ar y tir
6. Prosiectau Bute Energy
    a. Parc Ynni Twyn Hywel
7. Strategaeth fuddsoddi leol Bute Energy
8. Y realiti cyflawni
9. Heriau a chyfleoedd

1. Bute Energy - cyflwyniad

Yn Bute Energy, rydym yn datblygu'r cyflenwad ynni gwynt ar y tir mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n gyflym i ddefnyddio mwy na £3bn mewn buddsoddiad preifat, heb gymhorthdal, i sicrhau caniatâd, adeiladu a gweithredu mwy na 2GW o ynni o fewn y degawd nesaf.

Bute Energy mewn rhifau

- **£3bn** mewn buddsoddiad mewnol
- **£4.5bn mewn GVA** ar gyfer yr economi
- **£3.6 biliwn** mewn gwasanaethau wedi'u caffael gan fusnesau yng Nghymru
- Hyd at **3,000 o swyddi** wedi'u cefnogi
- **£1.1 biliwn** mewn trethi annomestig
- **£800 miliwn** mewn budd cymunedol

Gyda dyddiadau cysylltu â'r grid wedi'u cymeradwyo dros y degawd hwn, gallai portffolio Bute Energy wneud cyfraniad sylweddol at dargedau ynni a hinsawdd sy'n prysur agosáu, a helpu fel sail i dwf economaidd cynaliadwy a gwydnwch gwledig.

Gallai ein parciau ynni gyfrannu 25% o'r capasiti ychwanegol sydd ei angen i gyflawni targed Llywodraeth Cymru i fodloni 100% o'r galw am drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Ar yr un pryd, gallai'r portffolio ddarparu hyd at 18% o'r capasiti ychwanegol ar gyfer Pŵer Glân 2030.

Mae disgwyl i'r galw am ynni gynyddu yn ystod y degawdau nesaf a bydd technolegau newydd yn trawsnewid ein defnydd o ynni. Gall gwynt ar y tir chwarae rhan flaenllaw wrth gyflawni uchelgeisiau'r llywodraeth i sicrhau ein hannibyniaeth ynni er budd cymunedau, gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a diwydiant.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni prosiectau seilwaith ynni a fydd yn datgloi potensial ynni Cymru, yn cryfhau economi Cymru, yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi ddomestig, ac yn cyflawni buddion hirdymor.

Ni fydd y datblygwr cyntaf yng Nghymru i gyflawni uchelgeisiau hirdymor y llywodraeth ar gyfer perchnogaeth leol a chydberchnogaeth yn ystyrlon ac yn deg, a byddwn yn cymryd camau gweithredol i gynyddu capasiti ynni cymunedol dros y tymor hwn yn y Senedd. Rydym wedi ymrwymo i ffrwyno'r trawsnewid ynni er budd hirdymor pobl, cymunedau ac economïau ledled Cymru. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ein strategaeth fuddsoddi sy'n seiliedig ar le; gan wneud defnydd strategol a deallus o'n cronfa budd cymunedol, gan ddarparu llwybr teg at gydberchnogaeth drwy ein trefniant buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, a galluogi defnyddio mwy o ynni cymunedol.

2. Ein buddsoddiad yng Nghymru

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau'r gwerth gorau posibl o'n buddsoddiad er budd hirdymor cymunedau, economïau rhanbarthol, ac i Gymru. Copenhagen Infrastructure Partners, arweinwyr byd-eang mewn buddsoddiadau ynni adnewyddadwy, yw ein prif fuddsoddwyr, gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru hefyd wedi buddsoddi yn natblygiad ein portffolio.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy strategaethau buddsoddi cymunedol wedi'u targedu, dan arweiniad y gymuned, gofyniad Gwerth Cymdeithasol uchelgeisiol i'n contractwyr, a dull o gaffael sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r cyfraniad gorau posibl gan gyflenwyr o Gymru.



Mae RenewableUK Cymru yn amcangyfrif[2] y gallai Cymru, hyd at 2035, elwa o £10 biliwn mewn buddsoddiad, 8,000 o swyddi newydd, bron i £2 biliwn mewn refeniw treth, a mwy na £183 miliwn mewn cyllid budd cymunedol. Rydym yn amcangyfrif[3], pe bai'r holl brosiectau yn ein portffolio yn cael caniatâd, yn ystod cyfnod gweithredol o 40 mlynedd ein prosiectau, y bydd Bute Energy yn gwneud cyfraniad sylweddol at economïau cenedlaethol a lleol.

3. Cost ynni a'r cyd-destun deddfwriaethol

Darparodd ynni adnewyddadwy 54% o'n defnydd o drydan yn 2024, ac roedd yn werth bron i £2 biliwn i economi Cymru. Mae'n cryfhau ac yn diogelu ein cyflenwad trydan, yn gwarchod y bobl sy'n talu'r biliau rhag sioc prisiau byd-eang anwadal, ac yn pweru oes newydd o dwf diwydiannol.

Gan wynebu ail gost yr argyfwng ynni mewn 5 mlynedd, galw cynyddol am ynni, a thargedau ynni lai na degawd i ffwrdd, mae mwy i'w wneud. Mae gwrthdaro byd-eang diweddar yn ein hatgoffa ni o ba mor agored yw ein heconomi ni i niwed o du'r farchnad olew a nwy ryngwladol.

Mae dadansoddiad diweddar yn tynnu sylw at raddfa'r her. Yn 2024, dim ond 54% o'r galw am ynni a gyflawnwyd gan ynni adnewyddadwy ac, yn 2025, daeth Cymru yn fewnforiwr ynni am y tro cyntaf. Mae nwy sy'n cael ei fewnforio'n cyfrif am tua 58% o gynhyrchu trydan - cyfran uwch nag unrhyw wlad arall yn y DU[4]. Mae hyn yn gadael aelwydydd a busnesau mewn perygl sylweddol o farchnadoedd ynni anwadal a sioc prisiau cysylltiedig.

Yn 2024, cynhyrchodd nwy 26% o drydan y DU ond gosododd brisiau 85% o'r amser - felly rydym yn aml yn talu prisiau lefel nwy am bŵer adnewyddadwy rhatach.

Mae ein dibyniaeth fawr ar danwyddau ffosil anwadal yn gadael aelwydydd a busnesau mewn perygl o filiau ynni anrhagweladwy, sy'n codi'n sydyn. Mewn cyferbyniad, mae gwledydd fel Sbaen - sydd wedi ehangu eu pŵer adnewyddadwy yn gyflym iawn – yn cael eu gwarchod i raddau helaeth rhag y codiadau


[2] Datgloi gwerth llawn ynni adnewyddadwy Cymru, RenewableUK Cymru
[3] Dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd gan BiGGAR Economics ar ran Bute Energy yn 2025.
[4] Cynhyrchu a Defnyddio Ynni yng Nghymru: argraffiad cyfun cyntaf

byd-eang hyn mewn prisiau. Gyda chymysgedd amrywiol o ynni a gynhyrchir gartref, nid oes raid iddynt ddefnyddio mewnforion ynni tramor mor aml ac felly maent yn teimlo llai o effaith pan fydd argyfwng byd-eang yn digwydd.

Drwy fuddsoddi mewn mwy o ynni adnewyddadwy ac uwchraddio'r grid, gallwn ddefnyddio nwy yn llai aml a gostwng biliau.

Mae ynni adnewyddadwy yn cynnig y llwybr rhataf a chyflymaf i Gymru at ddiogelwch ynni a biliau defnyddwyr is a buddsoddiad hirdymor yn ein heconomi. Hefyd, mae ymchwil diweddar yn dangos y byddai cost dod â'n dibyniaeth ar olew a nwy i ben yn llai na chostau cysylltiedig ag ynni argyfwng tanwyddau ffosil sengl, fel yr un yn dilyn goresgyniad Rwsia o Wcráin.
Er mwyn creu Cymru sy'n wirioneddol annibynnol o ran ynni, mae angen i ni ehangu ein seilwaith ynni adnewyddadwy cartref, gyda chefnogaeth technoleg grid a storio modern.

Cyd-destun deddfwriaethol



Mae fframweithiau deddfwriaethol clir yn y DU a Chymru yn sbarduno'r trawsnewid i bŵer glân. Mae hyn yn cynnwys y Ddeddf Newid Hinsawdd (2008) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r fframwaith deddfwriaethol hwn yn sail i'n Fframwaith Datblygu Cenedlaethol - Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol hyd at 2040 a Pholisi Cynllunio Cymru.

Ein 'hegwyddor arweiniol' yw'r 'targed 2035' sy'n gyfreithiol rwymol ac sy'n cyd-fynd â'r hinsawdd i Gymru gwrdd â 100% o'n galw am drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035.


4. Galw cynyddol Cymru am ynni

Yn 2017, gosododd Llywodraeth Cymru darged cyfreithiol rwymol y byddai o leiaf 70% o ddefnydd trydan Cymru yn cael ei ddiwallu drwy gynhyrchu adnewyddadwy erbyn 2030. Yn ddiweddarach, pasiodd Llywodraeth Cymru darged i 100% o'r defnydd trydan gael ei ddiwallu drwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Daeth hyn cyn cenhadaeth Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU.

Er bod ynni adnewyddadwy Cymru wedi darparu 54% o'n cyflenwad yn 2024, roedd nwy yn cynrychioli 58% o'r cynhyrchu ynni. Rhagwelir y bydd y galw am ynni'n treblu erbyn 2050 - ac roedd hynny cyn ehangu AI a chanolfannau data[5]. Er mwyn cyflawni targed 2035 Cymru sy'n cyd-fynd â Pharis, bydd angen cynnydd pedair gwaith yn ein capasiti ynni adnewyddadwy mewn llai na degawd.

Cynhyrchu presennol o gymharu â thargedau 2035

[5] Cynhyrchu a Defnyddio Ynni yng Nghymru – Argraffiad Cyfun Cyntaf (Chwefror 2026)



(Ffigur 1 yn dangos y capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy presennol (3.6GW), a'r 'bwlch' cynhyrchu i fodloni'r galw a'r targedau a ragwelir ar gyfer 2035.)

Source: *Energy Generation & Use in Wales – Welsh Government*

Cyflwynodd adroddiad RenewableUK Cymru yn 2025 'Datgloi gwerth llawn ynni adnewyddadwy Cymru'[6] dair senario defnydd hyd at 2035:


- **Targedau presennol**[1] – 11,329MW (yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru)
- **Uchelgais Cynyddol** – 11,806MW
- **Sicrhau'r Gwerth Gorau o Ynni Adnewyddadwy** – 17,745MW (gwerth £46.6bn o fuddsoddiad mewnol erbyn 2035)

Mae gwynt ar y tir yn cynrychioli llwybr clir at gyflawni targed 2035. Gydag ansicrwydd sylweddol ynghylch cyflymder y defnydd o ynni gwynt alltraeth arnofiol (FLOW), gwynt ar y tir yw'r dechnoleg adnewyddadwy fwyaf aeddfed a chost-effeithiol.

Gyda 3.7 GW o ynni gwynt ar y tir yn cael ei ddatblygu (gyda chyfanswm capasiti ychwanegol o 7.7 GW), gall ynni gwynt ar y tir alluogi llawer o amcanion polisi sy'n debygol o fod yn rhan o'r tymor hwn yn y Senedd.

Bydd cyflawni'r uchelgais hwn yn gofyn am system gynllunio effeithiol sydd â digon o adnoddau ac sy'n rhoi eglurder i awdurdodau cyhoeddus, cymunedau a datblygwyr.

Cyflenwad o brosiectau yn ôl technoleg



(Ffigur 2 - capasiti cynhyrchu prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd yng Nghymru yn ôl technoleg, gyda 3.6GW yn cynrychioli'r cynhyrchu cyfredol, 3.7GW o wynt ar y tir, 3.4GW o wynt ar y môr, a 0.6GW o ynni solar ac ynni adnewyddadwy arall.)

Bydd bwrw ymlaen â Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy'n darparu mecanwaith effeithiol ar gyfer cyflawni hyn.

5. Rôl gwynt ar y tir

Ynni gwynt ar y tir yw'r dechnoleg ynni aeddfetaf, fwyaf cost-effeithiol a hawsaf i'w defnyddio. Dyma hefyd y dechnoleg fwyaf cost-effeithiol i bobl sy'n talu biliau.

Yn Rownd Ddyrannu ddiwethaf (7) cynllun Contract ar gyfer Gwahaniaeth Llywodraeth y DU (prif fecanwaith Llywodraeth y DU i gefnogi prosiectau ynni glân), roedd y pris y cytunwyd arno ar gyfer gwynt

[6] Datgloi gwerth llawn ynni adnewyddadwy Cymru, RenewableUK Cymru

ar y tir (£72.42 fesul megawat a gynhyrchir yr awr) yn hanner pris cynhyrchu nwy newydd (£147 fesul megawat a gynhyrchir yr awr).[7]

Gan gynhyrchu ynni am gost ragweladwy, mae gwynt ar y tir yn cynnig y gwerth gorau am arian i bobl sy'n talu biliau.

Gall gwynt ar y tir gefnogi cyflawni amcanion polisi ehangach hefyd, gan gynnwys galluoedd diwydiannol, twf rhanbarthol, a datblygu'r gweithlu a allai fel arall gael eu gohirio gan bwysau economaidd byd-eang ehangach - waeth beth yw'r uchelgais gwleidyddol.

- Targedau datgarboneiddio a sero net
- Diogelwch a gwytnwch ynni
- Gwytnwch a chynaliadwyedd gwledig
- Datblygu economaidd a chyflogaeth fedrus
- Mynediad at ynni fforddiadwy

    - *"Efallai y bydd y galw am drydan yng Nghymru yn treblu bron erbyn 2050" - Gridiau Ynni'r Dyfodol ar gyfer Cymru, Gorffennaf 2023.*

    - *"Mae angen i gynhyrchu trydan adnewyddadwy yng Nghymru gynyddu bron i bedair gwaith erbyn 2035 i gyflawni ei dargedau" – Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2023, Mawrth 2025.*

Gwerth economaidd a chynnwys lleol

Mae cynnwys lleol yn disgrifio cyfran y nwyddau, y gwasanaethau, y llafur a mewnbynnau eraill mewn prosiect neu gynnyrch sy'n dod o'r wlad neu'r rhanbarth lleol lle mae wedi'i leoli i hyrwyddo datblygiad economaidd a chyflogaeth.

Gyda'r gefnogaeth briodol gan y llywodraeth, mae cyfle i genhedlaeth sbarduno twf economaidd cynaliadwy a pharhaol a thrawsnewid capasiti diwydiannol Cymru drwy'r newid i system ynni glân. Mae dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd gan BiGGAR Economics ar ran Bute Energy yn amcangyfrif y bydd Bute Energy yn gwario'r canlynol pe bai pob prosiect yn ein portffolio'n cael caniatâd:[8]

£1bn

Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru wrth adeiladu ein prosiectau.

£3.6bn

Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru ar wasanaethau gweithredu a chynnal a chadw dros oes y prosiect.


£1.1bn

trethi busnes (yn ystod oes y prosiect).

Mae tystiolaeth gan RenewableUK yn canfod bod cryfderau presennol y DU yn gorwedd mewn gwasanaethau datblygu, gwaith sifil, a gweithrediadau a chynnal a chadw (O&M), sydd eisoes yn darparu cynnwys lleol sylweddol. Fodd bynnag, mae rhai elfennau gwerth uchel fel gweithgynhyrchu tyrbinau yn darparu cyfleoedd twf sylweddol. Mae'r dadansoddiad yn canfod bod elfennau eraill fel offer a seilwaith trydanol (EBoP) yn cynrychioli cyfle i symud y gallu ar y tir drwy strategaeth aml-sector ac amlygrwydd cadarn i gyflenwad ar gyfer ynni adnewyddadwy.

Mae hyn yn adlewyrchu ein profiad ni gyda Pharc Ynni Twyn Hywel yng Nghaerffili. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r llywodraeth i nodi cyfleoedd i gadw cyfran fwy o werth prosiectau seilwaith mawr.[9]

[7] Energy UK Explains: Allocation Round 7 results - Energy UK
[8] Dadansoddiad annibynnol a gynhaliwyd gan BiGGAR Economics ar ran Bute Energy yn 2025.
[9] Adroddiad crynodeb o asesiad gallu cadwyn gyflenwi ynni gwynt ar y tir (RenewableUK, Ebrill 2026)



O gymharu â diwydiannau eraill, dim ond y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru sydd â 'chynnwys lleol' cymharol i wynt ar y tir, sef tua 65c ym mhob £1 sy'n cael ei gwario o gymharu â 70c ar gyfer gwynt ar y tir.

Dim ond 35c ym mhob £1 mae'r diwydiant moduro yn y DU yn ei wario a 39c ym mhob £1 mae gweithgynhyrchu offer trydanol yn ei wario.

6. Prosiectau Bute Energy

Gallai ein parciau ynni gyfrannu 25% o'r capasiti ychwanegol sydd ei angen i gyflawni targed Llywodraeth Cymru i ddiwallu 100% o'r galw am drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2035. Ar yr un pryd, gallai'r portffolio ddarparu hyd at 18% o'r capasiti ychwanegol i gyflawni Pŵer Glân 2030 Llywodraeth y DU. Bydd holl brosiectau Bute Energy yn cael caniatâd Gweinidogion Cymru.



Gall ein portffolio gyflawni'r canlynol:

2GW o ynni glân

Pweru cyfatebol i 2.25 miliwn o gartrefi

Cymryd lle 2.6 miliwn o dunelli o Garbon Deuocsid

Mae ein timau prosiect yn gyfrifol am ddatblygu a sicrhau caniatâd i bortffolio o brosiectau, gan ddefnyddio'r technolegau diweddaraf i ddatblygu prosiectau gwynt ar y tir sy'n cynhyrchu cymaint o ynni â phosibl wrth fod yn sensitif i amgylcheddau a chymunedau lleol.

O fis Mai 2026 ymlaen, mae gennym ni bron i 590MW o gapasiti cynhyrchu – digon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i fwy na hanner miliwn o gartrefi – mewn ceisiadau cynllunio 'byw' sy'n cael eu hystyried gan 'Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru' (PEDW) a fydd, yn y pen draw, yn cael penderfyniad gan Weinidogion Cymru.

Enw'r prosiect	Lleoliad	Nifer y tyrbinau	Capasiti cynhyrchu	Cronfa Budd Cymunedol y flwyddyn	Statws
Twyn Hywel	Caerffili / RhCT	14	93.8MW	£703,500	Adeiladu
Nant Mithil	Powys	30	198MW	£1.48m	Yn cael ei gynllunio
Llyn Lort	Powys	23	151.8MW	£1.1m	Yn cael ei gynllunio
Banc Du	Powys	6	40MW	£300,000	Yn cael ei gynllunio
Rhiwlas	Powys	12	80MW	£600,000	Yn cael ei gynllunio
Aberedw	Powys	18	120MW	£900,000	Yn cael ei gynllunio
Lan Fawr	Ceredigion / Sir Gaerfyrddin	55	368MW	£2.75m	Cyn cais
Waun Hesgog	Ceredigion / Powys	37	248MW	£1.86m	Cyn cais
Esgair Galed	Powys	26	171MW	£1.28m	Cyn cais
Garreg Fawr	Powys	22	154MW	£1.15m	Cyn cais
Bryn Gilwern	Powys	16	84MW	£630,000	Cyn cais
Moel Chwa	Conwy / Sir Ddinbych	12	79.2MW	£594,000	Cyn cais


7. Parc Ynni Twyn Hywel

Twyn Hywel yw parc ynni gwynt ar y tir cyntaf Bute Energy i gyrraedd y cam adeiladu. Mae'n brosiect buddsoddi mawr i Gaerffili a rhanbarth de Cymru a bydd yn sicrhau manteision lleol sylweddol i gymunedau a busnesau, yn ogystal â'r economi ehangach.

Bydd y prosiect yn darparu hyd at 14 o dyrbinau gwynt gydag uchder blaen llafn uchaf o 200m. Bydd yn cynhyrchu hyd at 93.8MW o ynni glân sy'n ddigon i bweru tua 81,000 o gartrefi y flwyddyn.

Dechreuodd datblygiad y prosiect ddiwedd 2020, gyda chaniatâd wedi'i ddyfarnu gan Weinidogion Cymru ar ddiwedd 2024. Ar hyn o bryd disgwylir i'r prosiect ddechrau allforio ynni erbyn diwedd 2027. Hwn fydd y cyntaf yng Nghymru i wneud hynny ers 2022.

Bu Twyn Hywel yn llwyddiannus yn Rownd Ddyrannu 7 cynllun Contract ar gyfer Gwahaniaeth Llywodraeth y DU, y prosiect mwyaf o Gymru yn y Rownd Ddyrannu.[10]



[10] Parc Ynni yng Nghaerffili yn Llwyddo yn Rownd Ddyrannu 7 y DU

Dros y pedair blynedd nesaf, bydd y prosiect yn cyflawni'r canlynol:

- **Sicrhau bod £140,000 (20%) o gronfa budd cymunedol ar gael i gymunedau yn ystod y gwaith adeiladu**
- **Dyfarnu cyfanswm o £2.1 miliwn mewn cyllid budd cymunedol erbyn 2030**
- **Cefnogi 50 o unigolion i fod yn 'barod ar gyfer gwaith' ar gyfer cyflawni Twyn Hywel, drwy bartneriaeth arloesol gyda Big Issue Recruit**
- **Buddsoddi £500,000 o leiaf yn natblygiad a throsglwyddo prosiectau ynni cymunedol i berchnogaeth leol drwy'r Gronfa Budd Cymunedol erbyn 2030**
- **Cynhyrchu elw ar fuddsoddiad i aelodau'r saith cronfa bensiwn llywodraeth leol sy'n cymryd rhan drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru.**

Sut mae Parc Ynni Twyn Hywel yn darparu gwerth lleol

Astudiaeth achos – creu llwybrau i yrfaoedd

Mae Bute Energy wedi ffurfio partneriaeth gyda Big Issue Recruit i gefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyflogaeth i swyddi yn y sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Bydd y cynllun peilot yn helpu tua 50 o drigolion lleol i baratoi ar gyfer swyddi sy'n gysylltiedig â Pharc Ynni Twyn Hywel, gan gyfuno hyfforddiant wedi'i deilwra â chefnogaeth barhaus yn y gwaith i hyrwyddo cyflogaeth a sgiliau lleol hirdymor.


Astudiaeth achos – ynni cymunedol

Fel rhan o'n hymrwymiad ni i sicrhau'r gwerth cymdeithasol gorau drwy ein cadwyn gyflenwi, mae Dulas wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb i asesu prosiectau ynni cymunedol posibl o fewn radiws o 10km o Dwyn Hywel. Nododd yr astudiaeth sawl cyfle hyfyw, gan gynnwys cynllun micro-hydro yn Nant Llanbradach. Mae gweithgor mewnol wedi'i sefydlu bellach, gan ddefnyddio arbenigedd ein gweithlu i ddatblygu'r cynnig micro-hydro hwn ymhellach ochr yn ochr â phrosiectau posibl eraill. Darperir manylion am ein dull o weithredu gydag ynni cymunedol yn nes ymlaen.

Astudiaeth achos – caffael lleol

Fel partner Civils Balance of Plant, bydd Knights Brown, sydd wedi'i leoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn darparu'r seilwaith peirianneg sifil hanfodol sydd ei angen i adeiladu'r parc ynni. Mae hyn yn cynnwys dylunio ac adeiladu llwybrau mynediad, sylfeini tyrbinau, a gwaith peirianneg sifil. Mae'r penodiad yn adeiladu ar brofiad helaeth Knights Brown o gyflawni prosiectau ynni cymhleth ledled y DU, gydag arbenigedd penodol yn y sector gwynt ar y tir. Drwy eu gwybodaeth am y rhanbarth a'u hymgysylltu cynnar â chyflenwyr lleol drwy ein digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr, mae Knights Brown yn disgwyl y bydd £0.90/£ yn cael ei wario gyda chyflenwyr o Gymru.

8. Strategaeth Fuddsoddi Bute Energy



Yn Bute Energy rydym yn ffrwyno ein buddsoddiad ar gyfer dyfodol Cymru – yn gymdeithasol gyfrifol, wedi'i strwythuro i sicrhau'r cyfleoedd a'r gwerth gorau posibl i gymunedau.

Rhaid i fuddsoddi yn ein system ynni olygu mwy na phŵer glân yn unig: dylai greu ffyniant parhaol i gymunedau a'n heconomi, a chyfranogiad lleol gwirioneddol.

Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar ddulliau seiliedig ar le o weithredu sy'n ceisio sicrhau bod cyfoeth sy'n cael ei gynhyrchu yn lleol yn cael ei gadw ac yn sicrhau budd i bobl a chymunedau lleol. Mae'n cwmpasu budd cymunedol lleol, caffael, a sgiliau a'r rôl y gallwn ni ei chwarae wrth greu'r sylfeini i gadw mwy o'r gwerth yng Nghymru ac yn y cymunedau hynny sy'n croesawu prosiectau ynni adnewyddadwy.

Mae'r dull thematig o weithredu ar gyfer ein cronfa'n cynnwys y canlynol:

1. Cyflogadwyedd
2. Addysg
3. Cymorth gyda chostau byw
4. Hamdden ac iechyd
5. Yr amgylchedd a diwylliant

Sgiliau a chyflogaeth



Mae ein Strategaeth Sgiliau'r Dyfodol yn nodi sut mae Bute Energy yn cefnogi datblygiad sgiliau, hyfforddiant a llwybrau cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r sector ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar greu cyflenwad o dalent i gefnogi cyflawni prosiectau, cryfhau'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru a galluogi datblygiad gweithlu hirdymor.

Mae'r strategaeth yn cefnogi unigolion 16 oed a hŷn drwy addysg bellach ac uwch, yn ogystal â chyfleoedd gyrfa gynnar i ddatblygu cadwyn gyflenwi alluog a chystadleuol yng Nghymru.

Hefyd mae Bute Energy wedi sefydlu Bwrdd Ymgynghorol i Ieuenctid i gefnogi ymgysylltu gyda phobl ifanc ledled Cymru.

Nod ein Strategaeth Sgiliau ar gyfer y Dyfodol yw:

- Cefnogi datblygiad gweithlu medrus yng Nghymru
- Gwella mynediad at lwybrau hyfforddiant, addysg a chyflogaeth
- Cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a gallu'r diwydiant
- Cynyddu cyfranogiad yn y sector ynni adnewyddadwy
- Cyfrannu at wydnwch economaidd hirdymor

Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin sgiliau ar gyfer dyfodol ynni glân, rydym yn dyfarnu bwrsari i ddau fyfyriwr MSc yn Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd – sydd bellach yn ei hail flwyddyn.

Bydd y gefnogaeth yn helpu'r myfyrwyr i gwblhau eu MSc mewn Cynllunio a Datblygu Gofodol – cwrs sy'n paratoi'r genhedlaeth nesaf i arwain mewn cynllunio ynni adnewyddadwy a chreu lleoedd cynaliadwy.
Darllenwch fwy am y myfyrwyr cyntaf i dderbyn bwrsari - Ella a Cerys.

Cadwyn gyflenwi a ‘chynnwys lleol’



Rydym yn ystyried ein hunain fel 'busnes angor' ar gyfer y gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer y diwydiant ynni adnewyddadwy – gan gynyddu'r cyfleoedd i gyflenwyr presennol Cymru, denu cyflenwyr newydd i Gymru ac, yn y tymor hwy, dod â mwy o allu'r diwydiant ar gyfer ynni adnewyddadwy yng Nghymru gartref.

Mae ein dull o gaffael yn canolbwyntio ar sicrhau'r 'cynnwys lleol' gorau posibl ar draws ein holl gontractau. Mae ein prosesau caffael yn rhoi pwysau sylweddol ar gyflenwyr Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr mawr amlinellu'r union wasanaethau, eu gwerth, a chyflenwyr posibl ar eu ffurflenni tendr.

Mae hyn wedi arwain at y cyflenwyr peirianneg sifil Knights Brown yn ymrwymo i wario 90c o bob £1 a fuddsoddir gyda chyflenwyr ledled Cymru.

Drwy ein hymgysylltu â rhwydweithiau busnes lleol, cyrff diwydiant, a chyflenwyr posibl – gan gynnwys drwy ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr – rydym yn cymryd camau bwriadol i agor y gadwyn gyflenwi yng Nghymru i gyfleoedd cadwyn gyflenwi ynni adnewyddadwy: gan feithrin eu gallu i elwa o'r £10bn posibl o fuddsoddiad mewnol i Gymru hyd at 2035.

60%
Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru wrth ddatblygu ein prosiectau.

£1bn
Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru wrth adeiladu ein prosiectau.

£3.6bn
Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru ar wasanaethau gweithredu a chynnal a chadw dros oes y prosiect.

70%
Cyfanswm y gwariant a amcangyfrifir gyda busnesau Cymru ar wasanaethau gweithredu a chynnal a chadw dros oes y prosiect.

52%
Gwariant Bute Energy gyda busnesau a gwasanaethau Cymru hyd yma

Buddsoddiad cymunedol a gwerth cymdeithasol



Mae ein Strategaeth Fuddsoddi Gymunedol yn nodi sut bydd cyllid budd cymunedol sy'n gysylltiedig â'n parciau ynni arfaethedig yn cael ei neilltuo i gefnogi blaenoriaethau lleol, gwydnwch economaidd a datblygiad cymunedol.

Mae'r strategaeth yn cyfuno cyllid hirdymor, dadansoddiad o anghenion cymunedol sy'n cael ei arwain gan ddata, a gwneud penderfyniadau lleol sy'n seiliedig ar wybodaeth i sicrhau bod buddsoddiad yn cefnogi canlyniadau cynaliadwy mewn ardaloedd o amgylch parciau ynni.

Mae buddsoddiad cymunedol wedi'i gynllunio i gefnogi ystod o ganlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gan gynnwys y canlynol:

- Cefnogi datblygu sgiliau lleol a llwybrau cyflogaeth
- Cryfhau sefydliadau a gwasanaethau lleol
- Gwella cyfleusterau cymunedol a mynediad at fannau awyr agored
- Cefnogi mentrau diwylliannol, addysgol ac amgylcheddol
- Galluogi cyfleoedd ynni cymunedol

Gan gyfuno gwneud penderfyniadau lleol, data cadarn, a goruchwyliaeth genedlaethol, nod y dull hwn o weithredu yw ceisio sicrhau bod cyllid yn darparu budd hirdymor i gymunedau sydd wedi'u lleoli ger parciau ynni Bute Energy.

Yn ddiweddar, daeth ein hymrwymiad i werth cymdeithasol yn fyw drwy ein partneriaeth gyda Drenewydd Actif Newtown (DAN), menter chwaraeon gymunedol leol sy'n gweithio i ddatblygu cyfleuster cynhwysol cwbl fodern sydd â'r nod o wella lles corfforol a chymdeithasol yn y Drenewydd. Drwy ein gofyniad gwerth cymdeithasol o 2%, darparodd yr ymgynghorwyr, RSK Group, gefnogaeth gyfatebol gwerth bron i £12,000. Mae hyn wedi galluogi DAN i gael mynediad at £1 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer y prosiect.

Cydberchnogaeth

Mae Bute Energy wedi sicrhau buddsoddiad drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (WPP), sy'n cynrychioli cronfeydd pensiwn Awdurdodau Lleol.

- Buddsoddiad o £68 miliwn ym mhrosiectau Bute Energy
- Cyfranogiad gan saith cronfa bensiwn Awdurdodau Lleol
- Cynrychioli tua 388,000 o ddeiliaid pensiwn
- Cyfle i gronfeydd gynyddu cyfranogiad teg yn dilyn caniatâd cynllunio

Mae'r strwythur hwn yn galluogi cronfeydd pensiwn i fuddsoddi mewn seilwaith ynni adnewyddadwy sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn 2022 ar gydberchnogaeth a pherchnogaeth leol, gan gydnabod bod modd *"strwythuro cydberchnogaeth fel mecanwaith buddsoddi yn hytrach na fel cyfran reoli uniongyrchol yn yr endid sy'n gweithredu prosiect ynni, lle mae graddfa'r gofynion masnachol a llywodraethu yn gwneud hyn yn opsiwn mwy realistig."*

Mae'r buddsoddiad yn cynrychioli 25% o gyfanswm costau datblygu'r portffolio a darparodd elw o 11% i'r WPP ar Barc Ynni Twyn Hywel gan sicrhau ei Benderfyniad Buddsoddi Terfynol ym mis Ebrill 2026.

Ynni cymunedol

Mae ynni cymunedol yn garreg filltir i'n cynnig perchnogaeth leol, a'n dull o fynd i'r afael â chostau argyfwng ynni i gartrefi. Bydd hyd at 25% o'n Cronfa Budd Cymunedol ar gael i adeiladu, cysylltu a rhoi prosiectau i helpu i leihau biliau ynni a chynhyrchu incwm i'r gymuned.

Gallai'r prosiectau cynhyrchu hyn ar raddfa lai gysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu lleol - gan ddarparu incwm i'w perchnogion neu i wasanaethu angen ynni uniongyrchol.

Bydd y gronfa hon ar gael i unrhyw grŵp sydd â chyfansoddiad, consortiwm o sefydliadau trydydd sector neu gyrff sector cyhoeddus, fel clystyrau ysgolion neu Gynghorau Cymuned. Bydd y grwpiau a nodir yn cael eu cefnogi i fod yn berchen ar y prosiect (a'r incwm) a'i reoli er budd eu haelodau a'r gymuned ehangach.

Bydd cefnogaeth dechnegol i ddatblygu'r prosiectau hyn yn cael ei darparu drwy wasanaethau ein partneriaid dan gontract, fel y nodir yn ein Safon Gwerth Cymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi eglurder ar hyfywedd, cost a chapasiti cynhyrchu prosiectau cyn i grwpiau wneud cais am gyllid i adeiladu a chysylltu'r prosiect.

Drwy ein cytundeb cytundebol gyda Dulas Cyf., mae ein gofyniad gwerth cymdeithasol wedi datgloi £7,000 mewn cefnogaeth mewn nwyddau i gynnal dadansoddiad bwrdd gwaith o gyfleoedd ynni cymunedol 10km o Barc Ynni Twyn Hywel. Ystyriodd yr astudiaeth gyfleoedd effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau cymunedol a phrosiectau cynhyrchu fel solar ar y ddaear, solar ar y to, hydro, a gwynt ar raddfa fechan. Bydd yr astudiaeth hon yn sail i'r prosiectau ynni cymunedol mwyaf hyfyw i'w harchwilio gyda'r gymuned. Mae is-grŵp ynni cymunedol ein Grŵp Cyswllt Cymunedol wedi dewis mynd ar drywydd cyfleoedd hydro bach y bydd Bute Energy yn helpu i'w datblygu, sicrhau caniatâd ar eu cyfer, a'u hadeiladu i'w gweithredu gan y gymuned leol.

9. Heriau a chyfleoedd

Bydd y tymor hwn yn y Senedd yn diffinio llwybr Cymru at ddiogelwch ynni – a sut mae Cymru'n ffynnu o'r trawsnewid.

Ers 2015, mae 800 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy wedi cael ei ganiatáu. Yn 2022 y daeth y prosiect gwynt ar y tir diwethaf ar raddfa fasnachol yn weithredol yng Nghymru. Mae Cymru'n wynebu her sylweddol yn ystod y degawd nesaf i ddadgarboneiddio ein system ynni a darparu diogelwch ynni wrth gadw costau i lawr ar gyfer aelwydydd, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau.

Rydym yn barod i weithio ar y cyd â'r llywodraeth i helpu i drosi uchelgeisiau polisi yn ddarpariaeth – ar fyrder, ar raddfa fawr, ac mewn ffordd sy'n darparu budd economaidd a chymunedol hirdymor. Er mwyn cyflawni targedau 2035 sy'n cyd-fynd â Pharis, dylai Llywodraeth nesaf Cymru geisio mynd i'r afael â'r rhwystrau canlynol i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd:

#	Her	Cyfle a gweithredu	Sut gall Bute Energy gefnogi
1	**Capasiti'r system** – bydd angen adnoddau ychwanegol (ar lefel genedlaethol a lleol) ar y system ganiatâd ar gyfer Prosiectau Seilwaith Sylweddol (y Gyfundrefn Caniatâd Seilwaith) i reoli'r galw ychwanegol ar hyn o bryd, ac a ragwelir, yn y system dros y degawd nesaf. Ar gyfer gwynt ar y tir o dan y gyfundrefn DNS, yr amser cyfartalog o gyflwyno i benderfyniad oedd 77 wythnos – 19 mis, gan ddiystyru'r amser a dreuliodd unrhyw brosiect wedi'i ohirio.	Drwy **Fargen y Sector Ynni Adnewyddadwy**, dylai'r llywodraeth wneud y canlynol: - cymryd camau gweithredol i sicrhau bod **cyrff caniatâd a rhanddeiliaid** yn barod i ymgysylltu fel sy'n ofynnol gan y Gyfundrefn Caniatâd Seilwaith. - edrych ar gyflwyno mecanwaith newydd (ar lefel genedlaethol neu ranbarthol) i alluogi datblygwyr i gyfrannu'n ariannol at fynd i'r afael â **chyfyngiadau adnoddau a chapasiti** mewn cyrff cynllunio sector cyhoeddus, fel sy'n cael ei archwilio ar hyn o bryd gan Gydbwyllgorau Corfforaethol.	- Gellir graddio ein dull model o noddi Myfyrwyr MSc Cynllunio Gofodol Prifysgol Caerdydd i hyrwyddo nifer y cynllunwyr cymwys yn y sector cyhoeddus i hybu capasiti. - Gallwn ddarparu gwybodaeth am gyflenwad ac amserlenni datblygu Bute Energy, a'r tagfeydd yn y system gynllunio sy'n arwain at oedi gyda chynnydd prosiectau i Benderfyniad. - Gallwn gyfrannu at drafodaethau diwydiant, gan gynnwys drwy Fargen y Sector, gan ddefnyddio profiad dwfn ein cydweithwyr sydd wedi bod yn ymwneud â phrosiectau ynni adnewyddadwy ledled y DU ers dros 20 mlynedd.
2	**Ansicrwydd polisi** – Mae diffyg polisi digon manwl yng Nghymru fel sail i ddatblygiad seilwaith o bwys cenedlaethol yn creu amwysedd ac ansicrwydd i ddatblygwyr. Mae hyn hefyd yn creu ansicrwydd ar draws cyrff cyhoeddus ac ymgynghoreion allweddol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, y Weinyddiaeth Amddiffyn, a'r Gwasanaeth Traffig Awyr Cenedlaethol, a gall arwain at amserlenni datblygu hirfaith sydd	Drwy'r **Strategaeth Ynni Genedlaethol,** dylai'r llywodraeth archwilio'r canlynol, gan ymgynghori â'r diwydiant: - **Datganiadau Cynllunio Seilwaith** sy'n cadarnhau'r angen blaenoriaeth allweddol am seilwaith ynni sylweddol ar raddfa fawr i gyflawni amcanion ynni Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau rhwymol. Dylai'r datganiadau nodi'r polisïau ar gyfer cyflwyno ac asesu ceisiadau seilwaith ynni a'u heffeithiau, a mynegi'n glir y rhoddir pwyslais sylweddol ar	- Gallwn ddefnyddio ein harbenigedd mewnol ym maes cynllunio, caniatâd ac ecoleg – a rhai ein hymgynghorwyr – i gefnogi datblygiad Datganiadau Cynllunio Seilwaith i ddarparu fframweithiau clir y mae modd gweithredu arnynt i arwain penderfyniadau datblygu a chaniatâd i gynorthwyo gyda datblygiad amserol. - Archwilio heriau cysylltu prosiectau cymunedol â'r grid i nodi mecanweithiau polisi defnyddiol i ddatgloi capasiti ynni cymunedol mwy - Darparu gwybodaeth a chyfraniadau drwy ein haelodaeth

#	Her	Cyfle a gweithredu	Sut gall Bute Energy gefnogi
	unwaith eto'n cael effaith negyddol ar hyder buddsoddwyr.	ddatblygu seilwaith cenedlaethol hanfodol yn y broses o wneud penderfyniadau. Yn Lloegr, mae casgliad o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol sy'n darparu polisi clir ar yr ystyriaethau i'w cynnwys mewn penderfyniadau ar ddatblygu seilwaith. Maent yn rhoi rhesymau dros y polisi a nodir yn y datganiad, ac yn ystyried polisi'r llywodraeth sy'n ymwneud â lliniaru ac addasu i newid hinsawdd wrth benderfynu ar Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.	o RenewableUK Cymru, y Gymdeithas Cynllunio Seilwaith Genedlaethol (NIPA), Sero Net Diwydiant Cymru, CBI Cymru, Siambrau Masnach ac eraill.
3	**Seilwaith grid –** mae diffyg seilwaith grid galluogol yng nghanolbarth Cymru yn rhwystr sylweddol i ddatgloi cynhyrchu ynni newydd, gan gynnwys mewn sawl un o Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw Dyfodol Cymru. Yn ogystal, mae amwysedd polisi'n arwain at oedi gyda chaniatáu seilwaith newydd sy'n hanfodol i gyflawni targedau 2035.	Drwy'r **Strategaeth Ynni Genedlaethol,** dylai'r llywodraeth archwilio'r canlynol, gan ymgynghori â'r diwydiant: - cyhoeddi **Datganiad Cynllunio Seilwaith ar y grid,** gan nodi'r angen strategol am seilwaith grid yng (nghanolbarth) Cymru, a **gosod fframwaith polisi clir** sy'n llywodraethu penderfyniadau cynllunio sy'n ymwneud â llinellau uwchben yn erbyn seilwaith arall, gan gynnwys gosod ynni o dan y ddaear.	- Gallwn ddefnyddio ein gwybodaeth ar draws ein cyflenwad helaeth o ynni gwynt ar y tir i helpu i lunio polisi clir y mae posib ei weithredu ar seilwaith grid sy'n cydbwyso effeithiau gweledol ac ecolegol â'r gofynion capasiti ychwanegol ac ystyriaethau economaidd llym i ddatblygwyr.
4	**Galluoedd y gadwyn gyflenwi** – er bod cyfle sylweddol i'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, mae heriau o ran capasiti a gallu sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i gyflenwyr yng Nghymru. Diffyg cyflenwyr Haen 1 sy'n gallu llywio prosiectau seilwaith mor sylweddol. Mae'r diffyg sicrwydd ynghylch cyflenwad hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddod â galluoedd gweithgynhyrchu gartref i Gymru yn y tymor canolig i'r tymor hir.	Drwy **Fargen y Sector Ynni Adnewyddadwy** a'r **Bwrdd Trawsnewid Cyfiawn,** dylai'r llywodraeth archwilio'r canlynol: - sicrhau bod yr **Archwiliad Sgiliau** arfaethedig yn nodi'r **sgiliau** sydd eu hangen i ddiwallu graddfa'r galw a'r defnydd o ynni adnewyddadwy newydd, gan baru gweithwyr presennol a gweithwyr y dyfodol â'r sgiliau angenrheidiol. - mapio a nodi **gallu a chapasiti'r gadwyn gyflenwi bresennol,** a sut gall y prosiectau sydd ar y gweill ar hyn o bryd wella capasiti. - sicrhau bod y Strategaeth Ynni Genedlaethol yn darparu **sicrwydd ac amlygrwydd o ran**	- Cefnogi ymgysylltu'r llywodraeth â chyflenwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i lywio'r camau y gall y llywodraeth eu cymryd i wella gallu, capasiti ac amlygrwydd y gadwyn gyflenwi. - Cefnogi ymgysylltu'r llywodraeth â gweithgynhyrchwyr tyrbinau gwynt a chyflenwyr offer trydanol i ddeall yr amodau sydd eu hangen i ddod â'r galluoedd gweithgynhyrchu ar gyfer technolegau adnewyddadwy gartref i Gymru. - Cefnogi sefydlu rhwydwaith o Ganolfannau Rhagoriaeth wedi'u lleoli ger technolegau ynni glân newydd i ddarparu hyfforddiant hirdymor mewn technolegau ynni, gwydnwch grid a chynllunio.

#	Her	Cyfle a gweithredu	Sut gall Bute Energy gefnogi
		y cyflenwad i roi hyder i fuddsoddwyr i ddod â galluoedd gweithgynhyrchu a chadwyn gyflenwi ychwanegol sydd eu hangen i gadw gwerth yng Nghymru gartref.	

Atodiad – Cyflawni eich Rhaglen Lywodraethu

Strategaeth Ynni Genedlaethol	Rydym yn croesawu'r cynnig i gyhoeddi Strategaeth Ynni Genedlaethol gynhwysfawr. Bydd cyflawni targed 2035 ar gyfer 100% o'r galw am ynni yn cael ei ddiwallu gan ynni adnewyddadwy yn gofyn am dreblu allbwn ynni adnewyddadwy Cymru. Mae'r Strategaeth yn gyfle i gryfhau system gynllunio a chaniatâd Cymru, cadw a gwella gwerth lleol, a chreu amgylchedd deniadol i fuddsoddwyr. Rhaid i'r strategaeth fabwysiadu dull system gyfan o weithredu o ran cynhyrchu, storio, galw, a chynllunio seilwaith rhwydwaith, wedi'i osod yng nghyd-destun galw cynyddol am ynni. Rydym hefyd yn nodi'r bwriad i osod targedau cynhyrchu yn ôl technoleg, gan gynnwys gwynt, solar, llanw, a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel hydrogen. Rydym yn deall gwerth y dull hwn o weithredu, ond byddem yn pwysleisio bod rhaid i dargedau penodol i dechnoleg fod yn dargedau **'isafswm'**, wedi'u gosod yng nghyd-destun galw cynyddol am ynni a tharged 2035. Rhaid i'r targedau hyn hefyd ystyried y buddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid i fodloni cyflymder defnyddio asedau cynhyrchu newydd. Bydd sicrhau bod targedau'n cael eu cefnogi gan gynllunio gofodol clir a strategaethau buddsoddi grid yn hanfodol i osgoi datgysylltu rhwng targedau technoleg a strategaethau buddsoddi grid. Gyda gwynt ar y tir yn cyfrif am 3.7GW o'r cyflenwad ynni adnewyddadwy presennol (o'r 7.7GW o gapasiti ychwanegol sydd ei angen erbyn 2035), rydym yn awyddus i archwilio gyda'r llywodraeth sut gall y strategaeth sefydlu fframwaith cynllunio clir i gydlynu'r defnydd o wynt ar y tir a'r seilwaith grid sydd ei angen.
Gwerth a budd lleol	Rydym yn nodi'r bwriad i fynnu cyfran perchnogaeth gymunedol ofynnol sydd rhwng 15 a 25%, model budd lleol cyfatebol, taliad Cronfa Cyfoeth, neu ddulliau cyfatebol o sicrhau buddion cymunedol ar gyfer pob prosiect ynni dros 10 MW, fel amod allweddol ar gyfer caniatâd. Rydym yn croesawu'r uchelgais i sicrhau'r budd lleol gorau posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy ac wedi datblygu strategaeth fuddsoddi uchelgeisiol sy'n seiliedig ar le i gyflawni hyn. Mae ein dull yn cynnwys sawl mecanwaith, a byddem yn annog y llywodraeth i ystyried sut gallai dewislen o opsiynau, gan gadw hyblygrwydd ar gyfer prosiectau ar draws pob math o dechnoleg a chadw dulliau sy'n seiliedig ar le o fuddsoddi yn lleol. Byddem yn croesawu'r cyfle i archwilio ein dull o weithredu'n fanylach. - **Cydberchnogaeth** – mae ein trefniant buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru yn cynrychioli 25% o'n costau datblygu. Ar ôl cyflawni ei Benderfyniad Buddsoddi Terfynol, cyflwynodd Twyn Hywel elw o 11% ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gan bob cronfa bensiwn leol opsiwn 'yn ôl y gofyn' i gymryd cyfran deg o hyd at 25% ym mhob prosiect wrth iddo gyflawni ei FID. - **Ynni Cymunedol** – Byddwn yn neilltuo 25% o Gronfeydd Budd Cymunedol (CBF) i alluogi prosiectau ynni dan arweiniad y gymuned o fewn 10km i'n parciau, gan fanteisio ar arbenigedd technegol, cefnogaeth hyfywedd a chapasiti contractwyr drwy ein hymrwymiadau Gwerth Cymdeithasol o 2%. Bydd y prosiectau hyn yn eiddo i grŵp lleol neu gwmni ynni cydweithredol ac yn cael eu gweithredu ganddo. - **Budd Cymunedol** – rydym yn mabwysiadu dull buddsoddi sy'n seiliedig ar le, wedi'i lywio gan ddata cyhoeddus, mapio cymdeithasol lleol, a strwythurau gwneud penderfyniadau lleol a chenedlaethol, yn annibynnol ar Bute Energy. Mae ffocws y gronfa ar gefnogi meithrin capasiti cymunedol, buddsoddi mewn mentrau sy'n

	cynhyrchu budd lleol hirdymor, a mwy o gefnogaeth i brosiectau ynni sy'n eiddo i'r gymuned. Bydd yn bwysig bod unrhyw fecanweithiau'n ystyried economeg prosiectau hynod gytbwys a chymhleth, yn enwedig graddfa'r buddsoddiad seilwaith ymlaen llaw sydd ei angen. Mae prosiectau adnewyddadwy'n ddwys o ran cyfalaf gyda chyfnodau ad-dalu hir. Bydd fframweithiau clir, cyson a hyblyg yn hanfodol i sicrhau bod Cymru'n parhau i fod yn gyrchfan atyniadol ar gyfer buddsoddi ynni hirdymor. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun dileu'r gwaharddiad de facto ar wynt ar y tir yn Lloegr ac uchelgeisiau pŵer glân Llywodraeth y DU.
Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy	Rhaid i Fargen y Sector Ynni Adnewyddadwy barhau i fod yn elfen ganolog o'r Strategaeth Ynni Genedlaethol arfaethedig – a chyflawni yn erbyn blaenoriaethau ehangach. Bydd y pwyslais ar weithio mewn partneriaeth, datblygu sgiliau, twf y gadwyn gyflenwi, a chynllunio sector cydlynol yn hanfodol i gyflawni targedau 2035 a chynnal hyder y diwydiant. Gall Bargen y Sector hefyd ddarparu cyfrwng i archwilio polisi'r blaid ar gynllunio gofodol ac effaith gronnol i gynnal cyflenwad clir o brosiectau. Bydd hyn yn cefnogi'r sefydlogrwydd hirdymor sydd ei angen i feithrin a chynyddu buddsoddiad yn y gadwyn gyflenwi, cynllunio'r gweithlu, a datblygu sgiliau.
Diwygio cynllunio	Mae'r ymrwymiad i ddiwygio'r system gynllunio a chyflwyno amserlenni cadarnach ar gyfer rhoi caniatâd i seilwaith ynni'n cael ei groesawu. Mae sicrhau bod gan y system ganiatâd adnoddau da ac yn darparu eglurder a chysondeb i gymunedau, ymgynghoreion ac ymgeiswyr yn hanfodol. Mae'r Gyfundrefn Caniatâd Seilwaith yn darparu amserlenni caniatâd 12 mis ar ôl derbyn cais, fodd bynnag, roedd yr amserlenni tua 10 mis yn y gyfundrefn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yn cael eu methu'n rheolaidd, gan ddiystyru'r amser a dreuliodd unrhyw brosiect wedi'i ohirio. Ar gyfer gwynt ar y tir o dan y gyfundrefn DNS, yr amser cyfartalog o gyflwyno i benderfyniad oedd 77 wythnos - 19 mis. Bydd cydlynu ar draws datblygiadau seilwaith cynhyrchu, storio a grid, gan sicrhau digon o gapasiti o fewn y system, yn hanfodol i gyflawni targed 2035 a chynnal hyder y diwydiant. Rydym hefyd yn cydnabod y ddadl barhaus ar raddfa, maint ac effeithiau gweledol gwynt ar y tir. Mae'n broses gymhleth i ddatblygu cynlluniau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng effeithiau amgylcheddol, effeithiau gweledol a chyfyngiadau ecolegol wrth gynhyrchu'r ynni ar y raddfa orau bosibl. Mae'r cymhlethdodau hyn yn bodoli o fewn amserlenni cost a chyflawni heriol, gan effeithio ar ba mor hawdd eu cyflawni yw prosiectau hyfyw. Rydym yn hapus i archwilio goblygiadau'r gofynion cystadleuol hyn i brosiectau Bute Energy. Rydym yn gobeithio parhau i weithio gyda swyddogion a'ch llywodraeth i sicrhau bod esblygiad polisi'n cael ei gefnogi gan gyfarwyddyd clir a dehongli cyson ar draws awdurdodau cynllunio, er mwyn osgoi ansicrwydd neu oedi wrth ddatblygu prosiectau.